CPS

# 2025





# Croeso i

# CPS 2025



**Dyma ein strategaeth ar gyfer y bum mlynedd nesaf sy'n nodi sut rydym am i'n sefydliad edrych erbyn 2025. Mae'n rhoi annibyniaeth a thegwch wrth wraidd sut rydym yn sicrhau cyfiawnder, ac mae'n fwriadol yn uchelgeisiol iawn. Mae'n cynrychioli newid sylweddol – trobwynt ar gyfer sut rydym yn cyflawni ein gwaith.**

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar ein cyfraniadau unigryw at y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys ein harbenigedd cyfreithiol a'r rôl arweiniol rydym yn ei chwarae mewn trawsnewid digidol. Wrth i'n llwyth achosion ddod yn fwy cymhleth, ac wrth i'r byd newid yn gyson o'n cwmpas, mae'n hanfodol bod gennym strategaeth sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo ein cryfderau unigryw, ac sydd hefyd yn nodi lle mae'n rhaid i ni wella.

Mae'r amrywiaeth eang o alluoedd sefydliadol sydd eu hangen arnom i lwyddo yn cael eu hadlewyrchu yn ein pum nod strategol. Mae angen i ni helpu ein pobl i ffynnu – wedi'i gefnogi gan allu digidol gwell a phartneriaethau strategol cryf – i sicrhau ansawdd gwaith achos rhagorol Gyda'i gilydd, mae'r holl elfennau hyn yn sicrhau hyder gan y cyhoedd.

Nid ein gweledigaeth ni yn unig yw hon. Mae CPS 2025 wedi'i lunio drwy gynnal nifer o drafodaethau amrywiol – gyda chydweithwyr, ein partneriaid yn y llywodraeth, y system cyfiawnder troseddol ehangach a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu hadborth, ac mae llawer ohono yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen hon. Rydym wedi gwrando'n ofalus, ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio er mwyn sicrhau cyfiawnder i bawb: dioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd.

Mae adeiladu partneriaethau cadarn ar lefel lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn flaenoriaeth i ni, ac mae'n sail i'n strategaeth. Nid ydym yn gweithredu mewn gwagle: rydym yn dibynnu ar yr heddlu, y Bar allanol, y llysoedd ac eraill, ac mae hefyd angen partneriaethau cadarn arnom ar draws y llywodraeth, y trydydd sector a'r sector preifat. Gyda'n gilydd yw'r unig ffordd y gallwn adeiladu system cyfiawnder troseddol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rydym am i'r perthnasoedd hyn gael eu diffinio gan dryloywder wrth i ni rannu ein harbenigedd a helpu i lunio'r fframwaith polisi a chyfreithiol gyda'n gilydd.

Egwyddor ganolog arall sy'n rhedeg drwy CPS 2025 yw pwysigrwydd arweinyddiaeth. Ein cyfrifoldeb ni fel arweinwyr yw arwain ein cydweithwyr drwy'r bum mlynedd nesaf. Mae'n rhaid i ni hefyd ddod â'n partneriaid allanol gyda ni wrth i ni newid a datblygu. Mae hynny'n golygu parhau â thrafodaethau, gan egluro ein penderfyniadau yn glir a bod yn atebol wrth i ni wynebu heriau.

Mae CPS 2025 wedi'i lunio i fod yn strategaeth fyw sy'n llywio'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ar draws y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae'n nodi'r hyn rydym am eisiau ei gyflawni, a bob blwyddyn bydd ein cynlluniau busnes yn penderfynu sut byddwn yn cyrraedd y nodau hyn. Bydd ein harweinwyr a'u timau yn cael eu harwain gan ein gwerthoedd yn hyn. Wrth i ni ddatblygu fel sefydliad, mae ein gwerthoedd yn aros yn gyson – yn ein hatgoffa ni sut dylen ni drin ein gilydd, ein partneriaid a'n cymunedau.

Max Hill

**Max Hill,**
**Cyfarwyddwr**
**Erlyniadau Cyhoeddus**

R. Lawrence

**Rebecca Lawrence,**
**Prif Weithredwr**

# Byd sy'n newid
CPS
# 2025
a thu hwnt

Bydd y byd o'n cwmpas yn newid yn sylweddol dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Mae deall beth mae hyn yn ei olygu yn hanfodol i ni wrth i ni barhau i arwain awdurdod erlyn cenedlaethol hyd at 2030 a thu hwnt.

Mae CPS 2025 wedi'i ddylunio i'n helpu ni i baratoi ar gyfer y newidiadau hynny ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd maent yn eu creu. Mae pob un o'r nodau strategol yn CPS 2025 wedi'u llywio gan waith ymchwil manwl, gan archwilio sut gallai newid cyd-destunau effeithio ar ein pobl, ein gwaith, ac ar ein lle yn y byd.

## Ein pobl


O ran ein pobl, rydym am barhau i ddenu'r bobl orau a mwyaf disglair, wrth ddefnyddio gwybodaeth helaeth ein staff presennol trwy ddatblygiad proffesiynol gydol oes. Am y tro cyntaf, bydd angen i ni gefnogi gweithlu sy'n cynnwys pedair cenhedlaeth yn effeithiol. Wrth i gymdeithas ddod yn fwy amrywiol, rydym yn ymhyfrydu yn y gobaith y bydd ein gweithlu'n parhau i adlewyrchu pob cymuned. Rydym wedi ymrwymo i feithrin y diwylliant cynhwysol a deinamig y bydd ei angen arnom i sicrhau y gall pawb fod yn nhw eu hunain a ffynnu yma. Bydd meithrin ein pobl, canolbwyntio ar les a buddsoddi mewn ffyrdd mwy ystwyth a hyblyg o weithio a dysgu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn mwynhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith – yn enwedig wrth i ni i gyd baratoi ar gyfer gyrfaoedd hirach, mwy amrywiol.

## Ein gwaith

Wrth ystyried dyfodol ein gwaith, rydym yn gyffrous ynglŷn â sut y gallai deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio wella ein ffordd o drin y ffrwydrad mewn tystiolaeth ddigidol a natur gynyddol dechnolegol trosedd. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o sgiliau yn parhau i fod yn sgiliau dynol yn unig.
Bydd ein penderfyniadau cyfreithiol bob amser yn cael eu gwneud gan ein herlynwyr arbenigol. Rydym eisiau arwain y ffordd wrth sicrhau bod technoleg bob amser yn cael ei defnyddio'n foesegol, gan gydnabod cymhlethdodau penodol beiusrwydd a bregusrwydd o fewn y maes cyfiawnder troseddol. Rydym yn benderfynol y bydd ein buddsoddiad mewn gallu digidol yn gwella'r ffordd y mae cyfiawnder yn cael ei sicrhau, gan roi amser i'n staff wneud yr hyn sy'n wirioneddol bwysig: gwasanaethu a chefnogi dioddefwyr, tystion a diffynyddion.

## Ein lle yn y byd

Mae ein lle yn y byd yn newid. Bydd y cyhoedd yn disgwyl mwy a mwy gennym ni. Byddant yn disgwyl mwy o dryloywder a gwasanaethau mwy personol sy'n diwallu anghenion gwahanol gymunedau – p'un a ydynt yn seiliedig ar ddaearyddiaeth neu ar nodweddion gwarchodedig.
Bydd angen i ni gydweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i drawsnewid y gwasanaeth hollgynhwysol rydym yn ei ddarparu, gan sicrhau ei fod yn deg ac yn cael ei ddeall gan bob cymuned. Rydym yn gwybod y bydd gan drosedd ddimensiwn mwy a mwy rhyngwladol dros y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd angen i ni weithio'n greadigol gyda phartneriaid ledled y byd i barhau i ddarparu cyfiawnder ar draws ffiniau.





CPS

## EIN GWELEDIGAETH

**EIN GWELEDIGAETH** – Rydym yn llais blaenllaw yn y broses o drawsnewid y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn defnyddio ein harbenigedd cyfreithiol a'n gallu digidol i wneud y cyhoedd yn fwy diogel ac i fagu hyder ein cymunedau amrywiol.

Y math o sefydliad rydyn ni am fod

Beth rydym yn ei wneud

# EIN NOD

**Rydym yn sicrhau cyfiawnder drwy erlyniadau annibynnol a theg**

## EIN GWERTHOEDD

**Trin pawb gyda pharch** – byddwn yn parchu ein gilydd, ein cydweithwyr a'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu, gan gydnabod bod yna bobl y tu ôl i bob achos.

**Byddwch yn annibynnol ac yn deg** – byddwn yn erlyn yn annibynnol heb ragfarn ac yn ceisio sicrhau cyfiawnder ym mhob achos.

**Bod yn onest ac yn agored** – byddwn yn egluro ein penderfyniadau, yn gosod safonau clir ynglŷn â'r gwasanaeth y gall y cyhoedd ei ddisgwyl gennym ac yn bod yn onest os byddwn yn gwneud camgymeriad.

**Ymddwyn yn broffesiynol ac ymdrechu am ragoriaeth** – byddwn yn gweithio fel un tîm, gan chwilio am ffyrdd newydd a gwell o ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd. Byddwn yn effeithlon ac yn gyfrifol gydag arian trethdalwyr.

# Ein dull strategol



Bydd CPS 2025 yn arwain popeth a wnawn ac yn helpu i ganolbwyntio ein gwaith lle mae'n wirioneddol bwysig. Mae'r pum nod strategol yn cynrychioli'r galluoedd sefydliadol a fydd yn ein cefnogi i gyflawni ein rôl graidd a chael effaith wirioneddol gadarnhaol, gan adeiladu ar ein cynnydd bob blwyddyn. Nid oes hierarchaeth rhwng y nodau strategol – mae pob un yr un mor bwysig os ydym am gyflawni ein gweledigaeth.

EIN POBL

Mae **ein pobl** wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud

GALLU DIGIDOL

Mae ein **gallu digidol** yn galluogi ein llwyddiant

PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Trwy ein **partneriaethau strategol**, rydym yn llunio fframwaith cyfreithiol, polisi a gweithredu sy'n hwyluso ein rôl graidd: erlyn yn annibynnol ac yn deg.

ANSAWDD GWAITH ACHOS

Mae safonau uchel o **ansawdd gwaith achos** yn hanfodol i sicrhau cyfiawnder. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol i wneud y cyhoedd yn fwy diogel.

NOD STRATEGOL

Mae pawb yn y CPS yn chwarae eu rhan wrth gyflawni pob **nod strategol**. Mae popeth a wnawn yn cyfrannu at ein nod yn y pen draw o fagu hyder y cyhoedd trwy ddarparu gwasanaethau sy'n deg ac yn ddealladwy i bob cymuned.





# Ein nodau a chanlyniadau

**NODAU**

## EIN POBL

Mae cefnogi llwyddiant a lles ein pobl yn galluogi pawb i ffynnu.

## GALLU DIGIDOL

Mae ein buddsoddiad mewn gallu digidol yn ein helpu ni i addasu i natur trosedd, sy'n newid yn gyflym, ac i wella'r ffordd rydym yn sicrhau cyfiawnder.

## PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Mae'r CPS yn llais blaenllaw mewn strategaethau traws-lywodraeth a chydweithrediad rhyngwladol i drawsnewid y system cyfiawnder troseddol.

## ANSAWDD GWAITH ACHOS

Mae arbenigedd cyfreithiol CPS, ansawdd gwaith achos a chydweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol yn cadw'r cyhoedd yn fwy diogel.

## HYDER Y CYHOEDD

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wasanaethu dioddefwyr a thystion ac yn cynnal hawliau diffynyddion mewn ffordd sy'n deg ac yn ddealladwy i bob cymuned.

**CANLYNIADAU**

### EIN POBL

- Mae pob rhan o'n gweithlu yn amrywiol ac yn gynhwysol.
- Mae gan ein pobl y sgiliau a'r offer sydd eu hangen arnynt i lwyddo.
- Mae ein diwylliant cefnogol yn hyrwyddo llesiant.
- Mae ein pobl yn arwain gyda'n gwerthoedd.

### GALLU DIGIDOL

- Mae gennym ni hyder yn niogelwch ein systemau.
- Rydym yn defnyddio data i yrru llwyddiant.
- Rydym yn arloesi, gan gynnwys gyda thechnoleg ddatblygol.
- Rydym yn rhagweithiol wrth fuddsoddi yn ein gallu digidol.

### PARTNERIAETHAU STRATEGOL

- Rydym yn arwain ar syniadau ar gyfer y dyfodol i ddeall materion ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.
- Rydym yn dylanwadu ar newid ar draws y System Cyfiawnder Troseddol drwy berthnasoedd rydym yn ymddiried ynddynt.
- Rydym yn cynghori Seneddwyr a Gweinidogion ar oblygiadau gweithredol y gyfraith a pholisi.
- Rydym yn sicrhau cyfiawnder ar draws ffiniau drwy gydweithio'n effeithiol yn rhyngwladol.

### ANSAWDD GWAITH ACHOS

- Mae'r person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir.
- Mae achosion yn mynd rhagddynt yn brydlon.
- Mae achosion yn cael eu trin yn effeithiol.
- Mae ansawdd ein gwaith achos yn gwella drwy weithio mewn partneriaeth.

### HYDER Y CYHOEDD

- Mae dioddefwyr a thystion yn cael profiad teg yn rhyngweithio â ni, waeth beth fo'r canlyniad.
- Rydym yn deall y ffordd orau i wasanaethu ein cymunedau amrywiol.
- Rydym yn llais arweiniol wrth sicrhau bod diffynyddion yn cael eu trin yn deg gan y System Cyfiawnder Troseddol.
- Mae'r cyhoedd yn deall ein gwerth.

EIN POBL

# EIN HASED MWYAF

## Mae cefnogi llwyddiant a lles ein pobl yn galluogi pawb i ffynnu.

Ein pobl yw ein hased mwyaf. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau cyfiawnder drwy erlyniadau annibynnol a theg. Mae cymorth ar gyfer llwyddiant ein pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein strategaeth.

Mae'n rhaid i ni ddenu a chadw gweithwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan fuddsoddi mewn datblygiad parhaus a helpu ein pobl i ddatblygu ym mha bynnag broffesiwn maent yn ei dewis. Byddwn yn blaenoriaethu llesiant ein staff ac yn cefnogi ein gweithwyr i weithio'n hyblyg. Byddwn yn creu diwylliant o arweinyddiaeth gadarnhaol, cynhwysiant a pharch – lle gall pawb fod yn nhw eu hunain a ffynnu mewn gweithlu sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

## Mae pob rhan o'n gweithlu yn amrywiol ac yn gynhwsol.

Mae pob rhan o'n gweithlu yn amrywiol ac yn gynhwysol. Byddwn yn parhau i arwain y sector cyhoeddus o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ein gweithlu.

Dylai'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu allu gweld eu bod nhw'n cael eu hadlewyrchu gennym ni, ac felly byddwn yn croesawu diffiniad eang o amrywiaeth – un sy'n cynnwys uwch arweinwyr, recriwtiaid newydd ac ymgeiswyr. Mae bod yn gwbl gynhwysfawr hefyd yn golygu amrywiaeth o ran syniadau a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau.

Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd o wrando'n ofalus ar staff, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus i ddweud eu dweud a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

## Mae gan ein pobl y sgiliau a'r offer sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Wrth i'r byd – a natur trosedd – newid o'n cwmpas, mae angen sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r offer sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Byddwn yn sicrhau bod dysgu yn cael blaenoriaeth, gan gydnabod bod cymryd amser oddi wrth gyfrifoldebau o ddydd i ddydd yn gallu bod yn heriol, a dod o hyd i ffyrdd o liniaru hynny. Rydym yn gwybod y gallai'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar bobl fod y tu allan i'w timau, neu y tu allan i'r CPS.

Byddwn yn annog ein staff i fanteisio ar ein lle o fewn y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyfreithiol ehangach trwy gysgodi, secondiadau ac adeiladu rhwydweithiau proffesiynol cryf.

## Mae ein diwylliant cefnogol yn hyrwyddo llesiant.

Mae llwyddiant a lles yr un mor bwysig er mwyn caniatáu i'n cydweithwyr ffynnu. Byddwn yn parhau i amddiffyn lles pawb – p'un a ydynt yn gweithio mewn llys, mewn swyddfa neu gartref.

Mae hyblygrwydd yn allweddol i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ystwyth ac i ganiatáu i'n staff ddod o hyd i gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith sy'n gweithio iddynt. Rydym am i amrywiaeth o ddewisiadau fod ar gael i bawb. Mae'n bwysig bod arweinwyr a rheolwyr yn creu diwylliant ac amgylchedd wedi'u seilio ar gefnogaeth ragweithiol ar gyfer lles. Mae gweithle cefnogol ac iach yn hanfodol wrth helpu pobl i gyflawni eu gorau.

## Mae ein pobl yn arwain gyda'n gwerthoedd.

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd ein hethos fel gwasanaeth cyhoeddus. Maent yn bwysig i'n holl staff, ar bob gradd ac ym mhob swydd. Disgwyliwn i bawb weithio ac arwain gyda'n gwerthoedd mewn golwg.

Mae'n rhaid i'r gwerthoedd hyn fod wrth wraidd ein hegwyddorion arweinyddiaeth, fel bod disgwyliad clir a gweladwy yn cael ei osod i bawb.




EIN POBL

# BUDDSODDI YN Y DYFODOL

GALLU DIGIDOL



## Mae ein buddsoddiad mewn gallu digidol yn ein helpu ni i addasu i natur trosedd, sy'n newid yn gyflym, ac i wella 'r ffordd rydym yn sicrhau cyfiawnder.

Mae angen i ni fuddsoddi yn ein gallu digidol er mwyn bod yn barod at y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwella ein hoffer digidol fel bod ein systemau TG yn fodern, yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae hefyd yn golygu gweithio'n agos gyda staff er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau digidol fel eu bod nhw'n teimlo'n hyderus ac yn barod ar gyfer newid. Bydd agwedd ragweithiol ac arloesol ynglŷn â gallu digidol yn ein helpu ni i weithio'n effeithiol gyda'n partneriaid, gan addasu i natur troseddu, sy'n newid yn gyflym, a gwella'r ffordd y mae cyfiawnder yn cael ei sicrhau.

GALLU DIGIDOL

### Mae gennym ni hyder yn niogelwch ein systemau.

Mae'n hanfodol bod ein systemau yn ddiogel a bod ein staff a'n partneriaid yn ymddiried ynddynt.

Gan gydnabod bod ymosodiadau seibr yn risg gynyddol, byddwn yn monitro canlyniadau adolygiadau diogelwch rheolaidd yn agos; sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio data yn foesegol ac yn unol â rheoliadau diogelu data; a datblygu strategaeth seibrddiogelwch sy'n sicrhau bod ein systemau'n wydn ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

### Rydym yn defnyddio data i yrru newid

Mae gwneud penderfyniadau da mewn byd sy'n cael ei yrru'n gynyddol gan ddata yn amhosibl heb dystiolaeth o ansawdd uchel.

Mae'n hanfodol ein bod yn casglu data defnyddiol a dibynadwy ynghylch ein gwaith, ac am y gofynion a'r heriau newidiol sy'n ein hwynebu, a'u dadansoddi'n effeithiol. Bydd mewnwelediad yn ein helpu i arwain sgyrsiau ar sail tystiolaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol a thu hwnt, wrth i ni ddefnyddio ein harbenigedd i ysgogi newid.

Byddwn yn parhau i adeiladu gallu dadansoddi data gweithredol uchel fel y gallwn wneud y gorau o'n data – p'un a yw'n cefnogi gwneud penderfyniadau strategol, yn ein helpu i weithio'n fwy effeithiol neu'n gyrru ffyrdd newydd o weithio.

### Rydym yn arloesi, gan gynnwys gyda thechnoleg ddatblygol.

Os ydym am arloesi, mae'n rhaid i ni fod yn fentrus ac yn arbrofol. Mae hynny'n golygu manteisio ar amrywiaeth o dechnoleg ddatblygol sydd eisoes yn bodoli er mwyn datrys problemau yn gyflym ac yn hyblyg.

Mae'n rhaid i ni hefyd gynyddu ein gallu mewnol ar gyfer y dyfodol, wrth adeiladu a chynnal y partneriaethau amrywiol sy'n cynnig yr atebion technegol gorau i ni. Rydym eisoes yn arwain y ffordd mewn trawsnewid digidol ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac yn parhau i wneud hynny dros y bum mlynedd nesaf.

### Rydym yn rhagweithiol wrth fuddsoddi yn ein gallu digidol.

Mae technoleg yn newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio yn gyflym. Mae hefyd yn newid natur troseddoldeb, yr achosion rydym yn eu herlyn a swm y dystiolaeth rydym yn ei chael.

Mae'n hanfodol bod gan ein staff yr offer a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd sy'n dod yn fwy a mwy digidol. Byddwn yn sicrhau bod ein systemau TG yn gweithio'n ddibynadwy i'r holl staff, a bod unrhyw hyfforddiant yn bodloni eu hanghenion, fel nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

# CYDWEITHIO

## Mae'r CPS yn llais blaenllaw mewn strategaethau traws-lywodraethol a chydweithrediad rhyngwladol i drawsnewid y system cyfiawnder troseddol.

Rydym yn gweithio wrth galon y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae’n rhaid i ni adeiladu partneriaethau strategol effeithiol ar draws y llywodraeth, y trydydd sector a'r sector preifat – gan weithio gyda'n gilydd i benderfynu ar y ffordd orau i adeiladu system cyfiawnder troseddol sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

# PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Byddwn yn datblygu dealltwriaeth o'n gwaith trwy ragor o dryloywder a rhagor o ymgysylltu rhagweithiol â Seneddwyr a swyddogion etholedig eraill. Byddwn yn trosoli'r perthnasoedd hyn i sicrhau bod y fframwaith cyfraith a pholisi yn ein galluogi i ddarparu cyfiawnder yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd cydweithio’n rhyngwladol yn sail i gyflawni cyfiawnder yn llwyddiannus ar draws ffiniau.

Mae’n rhaid i ni fuddsoddi mewn partneriaethau strategol cenedlaethol a lleol. Mae partneriaethau lleol cadarnhaol yn hanfodol ar gyfer cyflwyno gwaith achos o ansawdd uchel, ond maent hefyd yn ffurfio mecanwaith adborth hanfodol ynghylch yr hyn sy'n gweithio – neu sydd ddim yn gweithio – ar y rheng flaen. Bydd mewnwelediadau gan ein herlynwyr a phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol, ynghyd ag adborth gan ein cymunedau, yn helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer diwygio cyfraith genedlaethol a pholisi. Yn eu tro, bydd y partneriaethau hyn yn ein helpu i ddeall effaith leol unrhyw newidiadau cenedlaethol.

## Rydym yn arwain ar syniadau ar gyfer y dyfodol i ddeall materion ar draws y System CJS.

Bydd datblygu ein gallu ar gyfer y dyfodol yn ein helpu i ddeall yn well y cyfleoedd a'r bygythiadau rydym yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol, gan ragweld newidiadau i'r drosedd, polisi cyhoeddus a'r dirwedd ddeddfwriaethol.

Bydd ymgymryd â'r gwaith hwn gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol yn caniatáu i ni adeiladu golwg ar y cyd ar y dyfodol, gan weithio ar y cyd i ddatblygu ataliadau angenrheidiol a monitro effeithiol. Mae angen i ni osgoi pethau annisgwyl, fel y gallwn gadw'r cyhoedd yn fwy diogel.

## Rydym yn dylanwadu ar newid ar draws y System CJS drwy berthnasoedd rydym yn ymddiried ynddynt

Rydym yn rhyngweithio â phob rhan arall o'r system cyfiawnder troseddol, sy’n ein rhoi ni mewn sefyllfa unigryw i ddeall y potensial ar gyfer newid ar draws y system. Mae’n rhaid i ni fuddsoddi yn ein perthnasoedd ar draws y llywodraeth a'r system cyfiawnder troseddol, gan ymddwyn fel cyfaill beirniadol a phartner dibynadwy. Byddwn yn parhau i fod yn berchen ar fentrau newid mawr ar y cyd – fel y Llwyfan Cyffredin – sy'n cyfrannu at flaenoriaethau cyfiawnder troseddol trawsbynciol.

## Rydym yn cynghori Seneddwyr a Gweinidogion ar oblygiadau gweithredol y gyfraith a pholisi.

Ein cyfrifoldeb ni yw cynghori Seneddwyr a Gweinidogion ar oblygiadau gweithredol cynigion cyfraith a pholisi sy'n effeithio ar gyfiawnder troseddol, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cynorthwyo i erlyn achosion yn effeithiol ac yn effeithlon.

Byddwn yn rhagweithiol yn yr ymgysylltiad hwn, gan adeiladu perthnasoedd agored a chynhyrchiol â Seneddwyr – gan gynnwys eu gwahodd i ddysgu mwy am yr hyn a wnawn. Ni fydd y gweithio agosach hwn yn effeithio ar ein penderfyniadau erlyn. Byddant yn parhau i fod yn annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol.

## Rydym yn sicrhau cyfiawnder ar draws ffiniau drwy gydweithio’n effeithiol yn rhyngwladol.

Mae troseddoldeb yn mynd y tu hwnt i ffiniau. Mae’r cynnydd mewn seibrdroseddau a rhwydweithiau troseddol rhyngwladol trefnus yn fygythiad cynyddol i'n diogelwch cenedlaethol a’n lles economaidd.

Rydym eisoes yn rhagori mewn ymgysylltu a chydweithredu rhyngwladol, a byddwn yn parhau i nodi patrymau troseddau rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg, a'u heffaith ar y DU. Yn ogystal â meithrin perthnasoedd rhyngwladol i ganfod ac erlyn y troseddu hwn yn effeithiol, byddwn yn defnyddio arbenigedd ein herlynwyr ledled y byd i gefnogi diwygio cyfiawnder troseddol.



# RHAGORIAETH WRTH ERLYN



## ANSAWDD GWAITH ACHOS

**Mae arbenigedd cyfreithiol CPS, ansawdd gwaith achos a chydweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol yn cadw'r cyhoedd yn fwy diogel.**

Mae ansawdd gwaith achos yn gyfrifoldeb ar bawb yn y CPS, ni waeth beth yw eu gradd nac eu proffesiwn. Mae gwaith tîm cadarn yn hanfodol i sicrhau cyfiawnder, yn ogystal â dal i fyny â natur newidiol trosedd.

Mae angen i ni adeiladu arbenigedd a grymuso ein timau erlyn i wneud penderfyniadau anodd a bod yn atebol amdanynt. Nid ydym yn gweithredu mewn gwagle, ac mae'n rhaid i ni gydweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu er mwyn sicrhau cyfiawnder.

Byddwn yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu safonau lleol a chenedlaethol a rennir, gan ddal ein gilydd i gyfrif ar gyfer eu cyflawni nhw. Byddwn yn cyfathrebu ein canlyniadau gwaith achos yn gyson drwy amrywiaeth o lwyfannau er mwyn helpu i'r cyhoedd ddeall sut mae ein gwaith yn eu cadw nhw'n ddiogel.

### Mae'r person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir.

Mae erlyn y person cywir ar gyfer y trosedd cywir wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni barhau i graffu ar bob un penderfyniad yn ofalus. Mae hyn yn golygu bod yn onest ac yn dryloyw pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, fel y gallwn barhau i ddysgu a gwella fel gwasanaeth.

Ni allwn wneud y gwaith hwn ar ein pen ein hunain: bydd cydweithio effeithiol gydag ymchwilwyr o'r camau cynnar mewn achosion cymhleth yn sicrhau bod y dystiolaeth gywir yn cael ei chasglu er mwyn llunio achos cadarn o'r cychwyn cyntaf. Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod ein canllawiau ar gyfer erlynwyr yn adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol a deddfwriaethol – yn ogystal â natur newidiol trosedd a'n cymdeithas.

### Mae achosion yn mynd rhagddynt yn brydlon.

Weithiau mae achosion yn araf yn symud ymlaen trwy'r system cyfiawnder troseddol. Gall hyn gael effaith ddwys ar bawb sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn – gan gynnwys dioddefwyr, tystion a diffynyddion.

Mae gennym ni gyfrifoldeb i gyflymu'r broses hon sydd o fewn ein rheolaeth. Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd o olrhain a gwella pob cam o achos tra ei fod o fewn ein cylch gwaith, gan sicrhau bod ein holl ohebiaeth yn gywir, yn brydlon ac yn empathetig.

### Mae achosion yn cael eu trin yn effeithiol.

Mae'n rhaid i ni yrru ac olrhain gwelliannau ar draws pob agwedd ar ansawdd ffeiliau achos. Mae hyn yn golygu cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr) a'r Siarter Tystion.

Mae hefyd yn golygu sicrhau y cydymffurfir â holl orchmynion barnwyr ar amser, a bod ein gwaith achos – gan gynnwys datgelu – yn bodloni ein safonau ansawdd. Bydd hyn yn lleihau'r treialon sydd wedi chwalu neu sy'n aneffeithiol, a bydd yn gyrru effeithlonrwydd ar draws y system gyfan.

### Mae ansawdd ein gwaith achos yn gwella drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae ein llwyddiant fel gwasanaeth erlyn yn ddibynnol yn rhannol ar ansawdd y perthnasoedd sydd gennym gyda'n partneriaid gweithredol. Rhaid i bob asiantaeth cyfiawnder troseddol gyfathrebu'n gyflym ac yn glir os ydym am leihau'r amser y mae'n ei gymryd i achosion symud trwy'r system.

Mae'n rhaid i ni gyd barhau i flaenoriaethu nod cyffredin y system cyfiawnder troseddol i ddarparu cyfiawnder cyflym ac effeithlon, gan fuddsoddi yn ein partneriaethau lleol er mwyn arwain gwelliannau a chyflawni newid.

# GWASANAETHU PAWB

HYDER Y CYHOEDD

## Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wasanaethu dioddefwyr a thystion ac yn cynnal hawliau diffynyddion mewn ffordd sy'n deg ac yn ddealladwy i bob cymuned.

Rydym yn cynrychioli budd y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Os ydym am adeiladu hyder y cyhoedd, yna mae'n rhaid i ni drin pawb yn gyfartal ac, yn bwysig iawn, mewn ffordd sy'n helpu pobl i ddeall y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Rydym yn ddibynnol ar gyfranogiad dioddefwyr a thystion er mwyn sicrhau cyfiawnder, ac felly mae'n rhaid i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael gwasanaeth o ansawdd da ym mhob achos.

Mae sicrhau bod diffynyddion yn cael eu trin yn deg hefyd yn ganolog i'n rôl wrth gynnal rheol y gyfraith. Rydym yn arwain trwy esiampl ar gynhwysiant a chydraddoldeb, gan nodi a dileu anghymesuredd. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein harferion da wrth ymgysylltu â'r gymuned, gan sicrhau bod grwpiau amrywiol yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn gweithio ac yn gallu ein dal ni i gyfrif.

## Mae dioddefwyr a thystion yn cael profiad teg wrth ryngweithio â ni, waeth beth fo'r canlyniad.

Ni fydd pob dioddefwr neu dyst yn cytuno â'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud neu gyda chanlyniad achos. Ni ddylai hyn olygu eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw wedi cael eu trin yn annheg. Mae angen i bob un ohonom – ni waeth beth yw ein swydd – wrando yn ofalus ar aelodau o'r cyhoedd, a darparu eglurhad clir ac effeithlon o'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cyhoedd – ar draws pob un o'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu – yn gwybod y byddant yn cael eu trin yn deg gan ein sefydliad.

## Rydym yn deall y ffordd orau i wasanaethu ein cymunedau amrywiol.

Mae'n rhaid i ni allu dangos ein bod ni'n deall anghenion cymunedau lleol er mwyn i'r cyhoedd allu bod yn hyderus ein bod ni'n deg ac yn effeithiol. Mae rhai troseddau yn effeithio'n anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn gweithio i ddeall y ffordd orau i gefnogi'r dioddefwyr a'r tystion hynny trwy wrando ar gymunedau ac ar gynrychiolwyr y trydydd sector.

Wrth i gymdeithas ddod yn fwy a mwyn amrywiol, byddwn yn datblygu perthnasoedd newydd drwy gynnwys cymunedau newydd yn ein gwaith. Bydd y mewnwelediad hwn yn gwella ansawdd ein polisïau, ein canllawiau cyfreithiol a'n gwaith achos.

## Rydym yn llais arweiniol wrth sicrhau bod diffynyddion yn cael eu trin yn deg gan y CJS.

Yn gyffredinol, mae ein penderfyniadau yn gymesur mewn perthynas â diffynyddion â gwahanol nodweddion gwarchodedig, ond mae archwilio ein gwaith yn ofalus yn parhau i fod yn bwysig. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi unrhyw anghymesuredd yn gyflym ym mhenderfyniadau CPS ynghylch cyhuddo a phle.

Er mwyn bod yn llais arweiniol, mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r anghymesuredd sydd mewn mannau eraill yn y system, a chydweithio gyda phartneriaid i ddeall gwraidd yr achos. Mae angen i'r data cydraddoldeb sy'n cael ei gasglu a'i rannu rhwng partneriaid cyfiawnder troseddol fod yn gadarn ac wedi'i ddadansoddi yn gywir. Mae angen i ni adeiladu darlun systemig o anghymesuredd a sbarduno newid lle bo angen.

## Mae'r cyhoedd yn deall ein gwerth.

Po fwyaf y mae'r cyhoedd yn deall ein rôl ac yn ymddiried yn y penderfyniadau a wnawn, y mwyaf tebygol y byddant o gefnogi erlyniadau fel dioddefwyr neu dystion. Byddwn yn parhau i weithio i ddeall yr hyn sy'n gyrru hyder yn ein sefydliad.

Byddwn yn adeiladu ar ymgysylltu â chymunedau, partneriaid lleol a strategol yn ogystal â Seneddwyr a swyddogion etholedig eraill i greu dealltwriaeth gyhoeddus fanylach o'n rôl unigryw yn y system cyfiawnder troseddol.



# Beth sydd nesaf?

Mae ein nodau strategol yn uchelgeisiol iawn. Maent wedi cael eu llunio i gael eu defnyddio gan ein cydweithwyr bob dydd – i lywio'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ar bob lefel ar draws y sefydliad. Rydym yn gobeithio y bydd y strategaeth hon yn ddefnyddiol i'n partneriaid amrywiol, gan ddarparu crynodeb clir o'r hyn rydym yn ceisio ei wneud erbyn 2025, ac am bwysigrwydd y gwaith rydym yn ei wneud â nhw.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r hyn rydym am ei gyflawni, a bob blwyddyn bydd ein cynlluniau busnes yn penderfynu sut rydym yn cyrraedd y nodau hyn. Bydd pob cynllun busnes yn nodi yn union yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud, gyda chyllid ac amserlenni clir ar gyfer pob gweithgaredd.

Byddwn yn defnyddio mesurau llwyddiant sydd wedi'u halinio â CPS 2025 er mwyn mesur ein llwyddiant yn unol â phob nod strategaeth trosfwaol, a'r canlyniadau strategol sy'n sail iddynt. Bydd gwirio ein cynnydd yn gyson yn y ffordd yma yn sicrhau ein bod yn parhau i symud tuag at gyflawni ein nodau strategol erbyn 2025.



CPS 2025

2025